# Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 5 Tachwedd 2002

Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Pwynt o Drefn**
**Y Prif Weinidog ar bwynt o drefn a godwyd yn sgil y Sesiwn Holi wythnos ddiwethaf.**

**2.00pm**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**2.51pm**
**Pwynt o Drefn**
**Lorraine Barrett o dan Reol Sefydlog 7 ar ddosbarthu papurau ar gyfer cyfarfod o'r holl bleidiau yn ystod Sesiwn Holi.**

**2.52pm**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Sefydlu Cyngor Partneriaeth Iechyd a Lles**

***3.10pm***
*Bydd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn cynnig cynnig o dan Reol Sefydlog 34.5 i ddwyn ymlaen Cynnig â Dyddiad Trafod 1202 a gyflwynwyd ar 5ed Tachwedd 2002.*
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gohirio Rheolau Sefydlog 5.3 a 5.4 o dan ddarpariaethau Rheol Sefydlog 34.5 i ganiatau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, gyflwyno'r Datganiad Busnes heddiw yn absenoldeb Carwyn Jones, y Gweinidog sy'n gyfrifol am Fusnes y Cynulliad.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 39
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.11pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
**Pleidleisiodd 9 Aelod yn erbyn y datganiad busnes ond gan na wnaeth y 10 Aelod sy'n ofynnol bleidleisio yn erbyn y datganiad busnes, nid oedd angen cynnal pleidlais**

Cytunwyd ar y Datganiad Busnes

**3.10pm**

**Pwynt o Drefn**

**Nick Bourne** ar gynrychiolaeth Aelodau ar Bwyllgorau

**3.23pm**
**Newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, yn deillio o Adolygiad y Cynulliad o Weithdrefnau**
1. *NDM1195* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 34:

i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes (*yn deillio o'r Adroddiad ar Adolygiad y Cynulliad o Weithdrefnau - LD1636*) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Hydref 2002;

ii. yn cymeradwyo bod Rheolau Sefydlog 5.1, 5.3, 5.4, 6.3(iv), 6.3(v), 6.5, 6.12, 6.14, 6.16, 6.18, 9.8 (i),14.3, 15.4, 22.25(i), 22.25(ii), 25.2(iv) a 32.2 yn cael eu disodli'n llawn gan fersiynau diwygiedig y Rheolau Sefydlog hyn fel y'u nodir yn y ddogfen a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Hydref 2002.

iii. yn cymeradwyo ychwanegu Rheol Sefydlog newydd 11.3A fel y'i nodir yn y ddogfen a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Hydref 2002.

iv. yn penderfynu y bydd y diwygiadau yn dod i rym yn syth ac eithrio'r diwygiadau i Reol Sefydlog 14.3 a Rheol Sefydlog 15.4 (pwyllgorau Cyfle Cyfartal a Materion Ewropeaidd) a fydd yn dod i rym ar 1 Mai 2003.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Cynnig 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt iv. Dileu popeth ar ôl 'yn penderfynu bod y diwygiadau yn dod i rym ar unwaith'.

**Gwelliant 1**
O Blaid 34; Ymatal 0; Yn erbyn 15; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd Gwelliant 1**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O blaid 48; Ymatal 1; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd, gan y mwyafrif angenrheidiol o 2/3**

**3.32pm**
2. *NDM1196* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 34:

i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes (*Amserau'r Cyfarfod Llawn* - LD1637) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Hydref 2002;

ii. yn cymeradwyo bod Rheolau Sefydlog 5.2 a 6.2 yn cael eu disodli'n llawn gan fersiynau diwygiedig y Rheolau Sefydlog hyn fel y'u nodir yn y ddogfen a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Hydref 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

O blaid 14; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd y cynnig**

**3.33pm**
**Cynnig i gymeradwyo gwelliannau i’r Rheolau Sefydlog sy’n ymdrin â’r datganiadau o fuddiannau mewn cyfarfod llawn**
*NDM1194* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 34:

i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes (*Datgan Buddiant yn Nhrafodion y Cyfarfodydd Llawn* - LD1635) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Hydref 2002;

ii. yn cymeradwyo bod Rheolau Sefydlog 4.2, 4.5 a 4.7 yn cael eu disodli'n llawn gan fersiynau diwygiedig y Rheolau Sefydlog hyn fel y'u nodir yn y ddogfen a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Hydref 2002.

**Y cynnig:**

O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51

**Derbyniwyd y cynnig**

**3.41pm**
**Dadl ar lansio’r Cynllun Gweithredu Arloesedd**

*NDM1197* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol: 1. yn nodi cyhoeddiad ‘Cymru o Blaid Arloesi’, Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Arloesi, a 2. yn nodi bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi fersiwn terfynol o "Cymru o Blaid Arloesi" wedi i'r broses ymgynghori ddod i ben.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn llinell 1, rhoi 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' yn lle 'y Cynulliad Cenedlaethol'

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu at ddechrau pwynt 1 cyn 'yn nodi':
'yn flin na roddwyd y cyfle i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd gael mewnbwn i'r gwaith o ddatblygu polisi ond'

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ar ôl pwynt 2, rhoi
'Bydd yn rhaid i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd roi ystyriaeth fanwl iddo.'

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
'Yn edrych ymlaen at drafodaeth bellach yn y cyfarfod llawn ar 'Gymru o blaid arloesi' ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben ac ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd.'

*Ebostiwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg o 'Cymru o blaid arloesi' at Aelodau ddydd Llun, 28 Hydref 2002.*

**Gwelliant 1**
O Blaid 19; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 47
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 9; Ymatal 11; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 9; Ymatal 11; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 9; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**4.37pm**
**Dadl ar bolisïau diogelwch rhag tân**
*NDM1198* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma gan Weithgor Diogelwch Tân Cymunedol Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi'i adroddiad ar dân mewn cartrefi yng Nghymru – 'Wired for Safety'.

2. yn cefnogi'r argymhellion yn y ddogfen "Wired for Safety" i fynd i'r afael â phroblemau tân mewn cartrefi yng Nghymru; ac

3. yn edrych ymlaen at sefydlu Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol Cymru ym mis Ionawr 2003 – corff a fydd yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Gwasanaethau Tân – er mwy llywio rhaglen dioglewch rhag tân gydlynus ar draws tri Gwasanaeth Tân Cymru.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Yn llinell 1, rhoi 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' yn lle 'y Cynulliad Cenedlaethol'

*Gosodwyd Wired for Safety yn y Llyfrgell ddydd Llun 28 Hydref 2002 ac anfonwyd copi personol at bob un o Aelodau'r Cynulliad.* Nid yw'r ddogfen hon ar gael mewn fersiwn electronig

**Gwelliant 1**
O Blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 44
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.16pm

**************

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am

2.00pm ddydd Mercher, 6 Tachwedd 2002

**E P Silk**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a osodwyd ar 1 Tachwedd 2002

- ☐ Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 11) Cymru 2002: Grant Arbennig ar gyfer Plant ar eu Pen eu hunain yn Ceisio Lloches - LD1652

### Dogfennau a osodwyd ar 30 Hydref 2002

- ☐ Cost Benefit Analysis for Subordinate Legislation Proposed by Geraint Davies AM - LD1643 - Dim Copi Cymraeg ar gael